## PREIFAT A CHYFRINACHOL

Yn dilyn ein sgwrs dros y ffôn, ysgrifennaf atoch i gadarnhau, yn unol â pholisi a gweithdrefn Achwyniadau/Disgyblu/Ymchwiliadau yr Awdurdod, eich bod wedi'ch gwahodd i fod yn bresennol mewn cyfarfod ar xxxxxx am xxxx pm yn xxxxxxx (lleoliad), fel tyst, i'n cynorthwyo ag ymchwiliad i honiadau xxxxxxxxxxxxxxxx sy'n ymwneud ag ymddygiad (enw gweithiwr) yn y gweithle ar (dyddiad).

Rwy'n deall eich bod efallai wedi bod yn dyst i'r digwyddiadau yr honnir iddynt ddigwydd xxxxx (manylion ynghylch honiadau / ymddygiad honedig) xxxxxxxxxxx . NEU Rwy'n deall y gallai fod gennych wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â xxxx honedig y gweithiwr (manylion ynghylch honiadau / ymddygiad honedig) xxxx, a allai fy nghynorthwyo gyda fy ymchwiliad.

Noder fod y cyfarfod hwn yn ymarfer canfod ffeithiau yn llwyr ac nid eich ymddygiad chi sy'n destun ymchwiliad. Nid yw'r Awdurdod wedi penderfynu eto a yw'n briodol cymryd camau disgyblu ffurfiol ai peidio yn erbyn (enw'r gweithiwr). Gwneir y penderfyniad dim ond wedi i ymchwiliad trylwyr gael ei gwblhau.

Byddaf i'n bresennol yn y cyfarfod fel y Swyddog Ymchwilio ac rwyf wedi gofyn i XXXXXX fod yn bresennol yn y cyfarfod i gymryd nodiadau. A fyddech cystal â dod ag unrhyw wybodaeth neu ddogfennu gyda chi a allai fod o gymorth i'r ymchwiliad. Dylech fod yn ymwybodol os caiff yr honiadau eu cadarnhau y gallai nodiadau'r cyfarfod hwn gael eu defnyddio'n rhan o unrhyw gamau ffurfiol a all ddigwydd ac efallai y cewch eich galw fel tyst.

Bydd angen i bawb sy'n dod i'r cyfarfod sicrhau bod arferion gweithio diogel gan gynnwys arferion hylendid da, mesurau cadw pellter cymdeithasol a dulliau cyfyngu (ei ddal, ei daflu, ei ddifa, ac ati.) yn cael eu dilyn.
Cyn mynychu'r cyfarfod os byddwch yn datblygu'r symptomau canlynol:

- Tymheredd/twymyn 37.8 gradd neu uwch
- Peswch parhaus
- Anosmia (colli arogl neu flas yn rhannol/gyfan gwbl)

Peidiwch â mynychu'r cyfarfod a rhowch wybod i'ch rheolwr llinell a threfnydd y cyfarfod ar unwaith.

Gan fod y mater hwn yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, a fyddech cystal â chadw'r rheswm dros y cyfarfod hwn ac unrhyw drafodaethau ynddo yn gyfrinachol a pheidio â'i drafod â'ch cydweithwyr. Gallai unrhyw achos o dorri cyfrinachedd beryglu'r ymchwiliad, a bydd yn cael ei drin fel mater difrifol iawn. Os ceir bod amodau cyfrinachedd wedi'u torri, gallai hynny arwain at gymryd camau disgybl yn erbyn y person dan sylw.

Mae'r Awdurdod yn trin data personol a gesglir yn ystod y weithdrefn ddisgyblu yn unol â'i bolisi diogelu data. Yn ein hysbysiad preifatrwydd weithwyr, darperir gwybodaeth am sut y defnyddir eich data a'r sail ar gyfer prosesu eich data.

Byddaf yn fwy na pharod cynnal y gwrandawiad yn y Gymraeg neu yn y Saesneg. A fyddech cystal â rhoi gwybod imi p'un yw eich dewis iaith er mwyn imi allu gwneud y trefniadau priodol. Os oes unrhyw ffactorau eraill a allai yn eich barn chi effeithio ar drefniadau'r cyfarfod, rhowch wybod imi cyn gynted ag y bo modd.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych am gael eglurhad pellach ynghylch y mater hwn.